

### CYFNOD NEWYDD YN Y CYNULLIAD AC YN SAN STEFFAN

Yn dilyn [cychwyn dramatig i Bumed Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), ar Fai 18 fe gyhoeddwyd rhaglen lywodraethu gyntaf Llywodraeth newydd Cymru, a hefyd rhaglen newydd Llywodraeth San Steffan yn Araith y Frenhines. Mae cryn dipyn o'r naill raglen a'r llall yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU yn yr Undeb Ewropeaidd, a gynhelir ar Fehefin 23 (gweler tud. 6). Os mai gadael yr Undeb fydd y canlyniad, yna bydd blaenoriaethau'r ddwy Lywodraeth yn sicr o newid. Mae Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad wedi cyhoeddi [crynodeb defnyddiol](#) o beth fyddai effaith y naill ganlyniad neu'r llall ar waith Llywodraeth a Chynulliad Cymru.

Ar Fai 18 fe ail-etholwyd Carwyn Jones AC yn Brif Weinidog Cymru. Wrth dderbyn, fe gydnabu na fydd mwyafrif gan ei lywodraeth yn y Pumed Cynulliad, ac felly y bydd angen cydweithio â phleidiau eraill. Fe [amlinellodd gynlluniau ar gyfer 100 niwrnod cyntaf ei weinyddiaeth](#) (tan ddiwedd Awst), a gytnwyd gyda'r Brif Wrthblaid, Plaid Cymru. Ni fydd unrhyw ddeddfwriaeth yn y cyfnod hwnnw, er mwyn canolbwyntio ar:



- Sicrhau dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru (gan gynnwys cymryd camau parthed caffael, yn ôl Arweinydd yr Wrthblaid Leanne Wood AC yn ei haraith hi wedyn).
- Ymgyrchu o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU ar Fil Cymru.
- Sefydlu "ffordd newydd o ddeddfu" sy'n fwy addas i gyfrifoldebau Seneddol y Cynulliad. Nid oedd manylion am hyn, ond fe all olygu ail-strwythuro Pwyllgorau'r Cynulliad er mwyn hwyluso'r broses ddeddfu.
- Sefydlu Swyddfa Gabinet newydd a fydd yn gweithio ar weithredu chwe phrif addewid maniffesto'r Blaid Lafur, a thri chyd-bwyllgor gyda Phlaid Cymru i weithio ar Gyllid, Deddfwriaeth a'r Cyfansoddiad.

Wedi'r cyfnod cychwynnol, roedd y Prif Weinidog yn rhagweld cyflwyno'r deddfau hyn:

- Bil Iechyd y Cyhoedd. [Yn ôl Plaid Cymru](#), fe ail-gyflwynir y Bil a gollwyd ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, ond heb wahardd e-sigarennau mewn mannau cyhoeddus.
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, ar sail y [Bil drafft](#), ond hefyd yn cynnwys mesurau o ran pobl awtistaidd (yn dilyn [ymgyrch gan y Gymdeithas Awtistiaeth](#) yr ymrwymwyd iddo gan bob plaid yn ystod yr etholiad).
- Deddfu i atal cosbi plant yn gorfforol. (Mae hyn yn ymateb i geisiadau cyn yr etholiad [gan nifer o eglwysi Cymru a mudiadau eraill](#)).
- Cryfhau [Mesur y Gymraeg](#).

Ymysg blaenoriaethau eraill y mae Mr Jones yn rhagweld cytundeb arnynt mae:

- Ehangu gofal plant rhad ac am ddim hyd at 30 awr yr wythnos, gan sicrhau cyfartaledd o ran darpariaeth ddaearyddol a ieithyddol.
- Creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau newydd i bob oedran.
- Sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol a Banc Datblygu Cymreig.
- Sefydlu Cronfa Triniaethau Newydd o fewn y gwasanaeth iechyd i sicrhau cysondeb ar draws Cymru o ran argaeledd triniaethau arloesol; a recriwtio a hyfforddi meddygon teulu newydd (ond heb ymrwymiad i nifer penodol).
- Cynnal Adolygiad Seneddol i wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Y diwrnod canlynol, fe gyhoeddodd Mr Jones 'Gytundeb Blaengar' gyda Kirsty Williams AC (Democrat Rhyddfrydol) wrth ei gwahodd i ymuno â'r Cabinet. Mae'n cynnwys:

- Iechyd – ymestyn y [Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio](#) a diweddu "gwahaniaethu o ran iechyd meddwl". (Nid yw Cytûn yn llwyr ddeall ystyr yr ymadrodd olaf).
- Tai – 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol a model newydd 'Rhentu i Berchnogi'.
- Cyllid – Llawr cyllido ar gyfer y setliad llywodraeth leol.
- Amaeth – Cynllun grantiau bychain yn y cynllun datblygu gwledig.
- Addysg – lleihau maint dosbarthiadau babanod i uchafswm o 25, a chynnal y gyllideb addysg uwch yng ngholeuni argymhellion [Adolygiad Diamond](#) pan ddaw.

## [ARAITH Y FRENHINES](#)

Ymysg y mesurau yn yr Araith ar Fai 18 a fydd yn berthnasol i Gymru mae:



- Deddf yr Economi Digidol, yn rhoi hawl statudol i bob cartref gael o leiaf 10Mb yr eiliad o fand llydan (mater a godwyd yn [fideo etholiadol Cytûn](#) am fywyd gwledig), ac yn cyfyngu ar fynediad i wefannau pornograffig. Bydd hefyd yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth, e.e. yn achos dyledwyr.
- Bil Trafinidaeth Fodern, yn hybu cerbydau heb neb yn eu gyrru.
- Bil Gwella'r Farchnad, yn hwyluso newid cyflenwyr ynni a banciau. Byddai'r Bil yn berthnasol i Gymru dim ond yn y meysydd hynny sydd heb eu datganoli.
- Bil Diwygio Carchardai a Llysoedd, yn rhoi mwy o ryddid i Lywodraethwyr carchardai, gwella darpariaeth addysgol a iechyd meddwl yn y carchar, a moderneiddio'r llysoedd trwy ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Ardoll ar y diwydiant diodydd meddal. Ni fydd y Bil yn pennu sut y byddai'r arian a godir yn cael eu gwario yng Nghymru.
- Bil lawnderau Dynol Prydeinig. Mae Llywodraeth y DU yn addo ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru ac â'r cyhoedd cyn cyflwyno'r mesur, a fydd wedi'i seilio ar Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol a "chyfraith gyffredin" Lloegr a Chymru.
- Bil Gwrth-Eithafiaeth a Diogelu, a fydd yn cryfhau'r DBS ac yn gwarchod plant mewn "sefyllfaoedd addysgol dwys heb eu rheoleiddio". Nid yw'n eglur beth yw ystyr hynny. Mae Cytûn eisoes wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am y pwnc, a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus.
- Biliau yn gwneud newidiadau i'r drefn ar gyfer Pensiynau, Cynilion am Oes a'r cynllun Rhodd Cymorth ar gyfer elusennau.
- Bil Cyllid Troseddol, a fydd yn mynd i'r afael â chuddio elw o droseddau, ac osgoi trethi.
- Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog). Bydd hyn yn cadarnhau ymlyniad y DU i Gonfensiwn yr Hâg am warchod eiddo diwylliannol yn ystod rhyfeloedd. Gan fod diwylliant wedi ei ddatganoli, fe fyddai angen cydsyniad y Cynulliad.
- Addawyd hefyd sicrhau 'dyfodol hir-dymor' arfau niwclear y DU.

Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd y Bil Cynllunio Lleol a Seilwaith yn berthnasol i Gymru, ond dealltwriaeth Cytûn yw y byddai hynny'n amodol ar gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol, a chyda'r Pedwerydd Cynulliad wedi pasio Deddf Cynllunio a datganiad Carwyn Jones yn cynnwys sefydlu Comisiwn Seilwaith i Gymru, mae'n bosibl y bydd cryn ddadlau am y mater hwn.

Fe fydd angen cydsyniad y Cynulliad i weithredu yng Nghymru fesur er codi tâl ar ymwelwyr o dramor sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Iechyd.

Fe fydd y rhannau o'r Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol sy'n ymwneud â hwyluso mabwysiadu plant yn cael eu cyflwyno mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

Mater i'r Cynulliad fydd penderfynu a fydd Cymru yn ymwneud â'r Gwasanaeth Dinasyddiaeth Genedlaethol (National Citizen Service) arfaethedig.

## **GWEITHREDU DEDDFAU'R PEDWERYDD CYNULLIAD**

Dros y cyfnod etholiadol, ar 1af Ebrill 2016, fe ddaeth dwy o ddeddfau mwyaf y Pedwerydd Cynulliad i rym.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn cyflwyno trefn newydd ar gyfer asesu a gweithredu gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer diogelu plant ac oedolion bregus. Bydd unrhyw sefydliad sydd â threfniant ffurfiol gydag awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn atebol dan drefniadau'r Ddeddf, a bydd unrhyw unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau neu'n gofalu am rywun felly yn cael eu hasesu yn y dyfodol dan drefniadau'r Ddeddf. Mae Cyngor Gofal Cymru yn cynnal [Hyb ar y we](#) sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ddeall y Ddeddf a'i defnyddio.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn anelu at chwyldro ym meddylfryd gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gyda phob polisi yn cael ei bendnerfynu yng ngoleuni buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol. Megis dechrau mae'r newidiadau hyn, gyda sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol i gyd-lynu gwasanaethau cyhoeddus, a bydd Gweinidogion newydd Cymru yn atebol am weithredu yn y ffordd newydd yn genedlaethol.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, yn gyfrifol am fonitro hyn oll. Mae hi yn awyddus i gwrdd â phobl sy'n poeni am genedlaethau'r dyfodol yn eu hardal hwy, ac mae wrthi yn trefnu nifer o sesiynau i'r perwyl hwnnw. Os hoffech fynychu, yna cysyllter â'r Comisiynydd trwy e-bostio [contactus@futuregenerations.wales](mailto:contactus@futuregenerations.wales) a hefyd rhoi gwybod pa sesiwn sydd fwyaf cyfleus i chi ac a fyddai'n well gennych siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Deallwn fod llefydd yn brin!

- Canolbarth Cymru: 25 Mai, 2.00 – 4.00, Canolfan Morlan, Aberystwyth
- Dwyrain Gogledd Cymru: 14 Mehefin, 2.00 – 4.00, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
- Gorllewin De Cymru: 30 Mehefin (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau)
- Dwyrain De Cymru: 4 Gorffennaf (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau)
- Gorllewin Gogledd Cymru: 13 Gorffennaf (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau)

Ochr yn ochr â'r rhain, mae [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#) yn creu fframwaith newydd ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn ymgorffori yn y gyfraith egwyddorion a pholisïau rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n cyflwyno dyletswydd newydd o ran bioamrywiaeth ac ecosystemau, yn gosod targedau a chyllidebau ar gyfer allyriadau carbon statudol, ac yn creu system trwyddedu morol newydd. Mae hefyd yn cynnwys pwerau dros bysgodfeydd a gwastraff. Gellir gweld y rhyngberthynas rhwng yr amryfal ddeddfau hyn [yma](#). Fe fydd eu gweithredu yn dasg sylweddol. Roedd maniffesto'r Blaid Lafur yn addo ad-drefnu Llywodraeth Leol – sydd â rôl hanfodol yn hyn – ond ni soniwyd am hynny yn rhaglen gychwynol Carwyn Jones.

## **GWEINIDOGION LLYWODRAETH NEWYDD CYMRU**

**Ken Skates** - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**Vaughan Gething** - Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**Mark Drakeford** - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**Kirsty Williams** (Democrat Rhyddfrydol, nid yw yn y llun) - Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Lesley Griffiths** - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**Carl Sargeant** - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**Jane Hutt** - Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

**Julie James** - Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

**Alun Davies** - Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

**Rebecca Evans** - Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol



## **HOUSING JUSTICE CYMRU I'W LANSIO YN YSTOD BLWYDDYN JIWBILÎ DDEIMWNT**

Mae Bwrdd Rheolwyr Housing Justice wedi cyhoeddi y bydd yn ehangu'i waith i greu sefydliad ar wahân i Gymru, dan yr enw Housing Justice Cymru, dan arweiniad ei Gyfarwyddyd cyntaf, Sharon Lee. Mae'r penderfyniad gan Fwrdd y Rheolwyr yn parhau i gryfhau'r gwaith y mae Housing Justice yn ei wneud ar draws Cymru a Lloegr.

Gan edrych at ddatblygu cysylltiadau ar draws Cymru, fe fydd Mrs Lee yn gyfrifol am gefnogi eglwysi mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn cynnwys ymatebion ymarferol a chydlynus i ddigartrefedd ac anghenion pobl am lety. Bydd Housing Justice yn parhau i fod yn llais annibynnol, yn ceisio trafodaeth a pherthynas gadarnhaol gyda Llywodraeth genedlaethol a lleol yng Nghymru a Lloegr wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae lansiad ffurfiol yng Nghymru yn cael ei gynllunio yn nes ymlaen eleni. Gobeithir y bydd Gweinidogion blaenllaw yn y Llywodraeth, Arweinwyr Eglwysig a rhanddeiliaid eraill yn bresennol.

Wrth groesawu ei phenodiad yn Gyfarwyddyd Housing Justice Cymru, meddai Sharon Lee: "Mae'n fraint cael fy mhenodi'n ffurfiol yn Gyfarwyddyd cyntaf Housing Justice Cymru. Mae gan eglwysi a mudiadau Cristnogol ran allweddol yn y gwaith o ddatrys yr angen am gartrefi yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith hwn a helpu'r eglwysi i feithrin gwell cysylltiadau â'r sector tai. Bydd Housing Justice Cymru yn llais Cristnogol cryf wrth ymgychu i ddileu digartrefedd a diffyg llety safonol fforddiadwy."

Ychwanegodd Cadeirydd y Bwrdd ac Esgob Rochester, Y Gwir Barchg James Langstaff: "Dyma amser cyffrous i Housing Justice wrth iddo barhau i dyfu a datblygu ei waith. Mae gan Gynulliad a Llywodraeth Cymru annibyniaeth sylweddol o ran tai a llety, a mae'n bwysig fod gan Housing Justice bellach ei fudiad ei hun i ymwneud â hyn yng Nghymru. Mae Sharon Lee eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i waith Housing Justice ac rwy'n edrych ymlaen at weld parhau hynny yn ei rôl newydd. Byddaf yn ysgrifennu at Archesgob Cymru ac arweinwyr eglwysi eraill Cymru i gymeradwyo'r datblygiad hwn, a gofyn iddynt gefnogi gwaith Housing Justice Cymru."



## ADNEWYDDU SIARTER Y BBC

Fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i adnewyddu siarter Frenhinol y BBC am gyfnod o 11 mlynedd o 2017, gyda'r ffi trwydded yn codi gyda chwyddiant tan o leiaf 2021-22, ac yn cael ei ymestyn i gynnwys defnyddio iPlayer yn ogystal â gwylio rhaglenni'n fyw.

Mae dogfen y Llywodraeth, [A BBC for the future: a broadcaster of distinction](#) yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o awgrymiadau a wnaed gan Cytûn wrth ymateb i bapur ymgynghorol y Llywodraeth llynedd:

- Newid y 'pwrpas cyhoeddus' presennol sy'n cyfeirio at genhedloedd y DU trwy ddweud mai gwaith y BBC yw *representing the UK, its nations, regions and communities* i ddweud yn lle hynny *reflecting, representing and serving the diverse communities of all the UK's nations and regions*. Credwn fod ychwanegu'r gair "gwasanaethu" yn cyfleu yn well yr hyn gredwn ni yw dyletswydd y BBC i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar Gymru (tt 30-31).
- Cynyddu'r nifer o raglenni a gomisiynir o Gymru ar gyfer y rhwydwaith, a rhoi mwy o ryddid i BBC Cymru parthed y comisiynu, yn ogystal â sicrhau fod mwy o'r rhaglenni rhydwraith a gynhyrchir yng Nghymru yn portreadu bywyd Cymru (t. 44).
- Cynyddu gwasanaeth y BBC ar gyfer Cymru yn benodol, gan gynnwys darpariaeth ddigidol yn ogystal â radio a theledu (tt 44-5).
- Adolygu'r cydbwysedd rhwng newyddion o ogwydd Gymreig a newyddion o ledled y BBC. Mae'r BBC eisoes wedi dweud y byddant yn cyflwyno tudalen gartref newydd i Gymru'n benodol ar wasanaeth newyddion y we (t. 44).
- Cydnabod pwysigrwydd y BBC i gynnal ieithoedd lleiafrifol, a chadarnhau parhad y ddarpariaeth honno (t. 45), er nad oes unrhyw ymrwymiad i gynyddu adnoddau ar gyfer S4C na Radio Cymru. Fe fydd yna adolygiad o waith S4C a'r bartneriaeth rhyngddi a'r BBC yn ystod 2017 (tt 59, 97) gyda'r bwriad o gael cyfnod o "sefydlogrwydd" wedyn o ran ariannu'r Sianel.
- Fe fydd aelod penodol o Gymru ar Fwrdd newydd y BBC, ac fe fydd y BBC yn fwy atebol i'r Cynulliad o ran cyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ac ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad, a bydd gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol y tro nesaf y bydd y Siarter yn cael ei hadolygu (t. 59).

Yn union ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gan y Llywodraeth, fe gyhoeddodd BBC Radio Cymru gynlluniau ar gyfer [ehangu ei darpariaeth ar y we](#), gan gynnwys arbrofi gydag "ail orsaf" Gymraeg ar y we am gyfnod.

## COMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDD

Yn yr etholiad 'arall' ar Fai 5, fe etholwyd tri Chomisiynydd newydd ac fe ail-etholwyd Alun Michael (Llafur) yn [Gomisiynydd ar Heddlu De Cymru](#).

Y Comisiynwyr newydd yw:

- Dafydd Llywelyn (Plaid Cymru) – [Heddlu Dyfed-Powys](#)
- Arfon Jones (Plaid Cymru) – [Heddlu Gogledd Cymru](#)
- Jeff Cuthbert (Llafur) – [Heddlu Gwent](#)

Gellir darllen maniffesto Plaid Cymru ar gyfer yr etholiadau hyn [yma](#). Dymuniad Plaid Cymru yw gweld datganoli plismona i'r Cynulliad Cenedlaethol a dileu swyddi'r Comisiynwyr. Ni chyhoeddwyd maniffesto pleidiol gan Blaid Lafur Cymru, ond fe gyhoeddodd yr ymgeiswyr eu blaenoriaethau personol, ac fe ellir darllen mwy am flaenoriaethau'r ymgeiswyr llwyddiannus ar eu gwefannau uchod.

## DEALL MWY AM Y CYNULLIAD

Mae tîm allgymorth y Cynulliad ar gael i ddod i siarad gyda grwpiau – gan gynnwys grwpiau eglwysig - ynglŷn â'r Cynulliad a sut mae'n bosib i gymryd rhan yng ngwaith bob dydd y Cynulliad. Gellir cysylltu trwy ffonio 0300 200 6573 neu 07971 316 256 neu drwy e-bostio [Caryl-Mai.Hughes@assembly.wales](mailto:Caryl-Mai.Hughes@assembly.wales)

Mae'n bosib i chi ddarganfod pwy yw eich Aelodau Cynulliad drwy mewnbynnu eich cod-post neu wrth glicio eich ardal ar y map yma: <http://www.assembly.wales/cy/memhome/Pages/memhome.aspx>.

Mae Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad wedi paratoi [Materion o Bwys i'r Pumed Cynulliad](#) (PDF, 13.6MB). Mae'n ganllaw i nifer o feysydd sy'n debygol o fod o bwys dros y pum mlynedd nesaf, o'r diwydiant dur i ddyfodol deddfu yng Nghymru. Maent hefyd wedi paratoi rhestrau darllen, a gellir cysylltu atynt [fan hyn](#): Er mai ar gyfer Aelodau'r Cynulliad mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn gweithio, mae modd i'r cyhoedd ddarllen eu holl gyhoeddiadau amrywiol arlein, a gellir tanysgrifio i'w blog [yma](#). Mae'r cyfan yn drwyadl ddwyieithog.

## CWESTIWN EWROP

Beth fydd yn ein hysgogi pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniad unwaith-mewn-cenhedlaeth ar 23 Mehefin ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? A fyddwn yn poeni am fusnesau'n colli'r hawl i farchnata yn Ewrop, neu'n dyheu am fwrw o'r neilltu y fiwrocratiaeth sy'n ymddangos yn faich, yn enwedig ar fusnesau bychain? A fyddwn yn cyfri'r gost ar sail cyfraniad y DG at y gronfa gyffredin, ynteu ar sail yr hyn mae Cymru'n ei dderbyn? A ydym yn gwerthfawrogi safonau cyffredin a symud yn hawdd rhwng gwledydd, ynteu a ydym yn ofni mewnfudo dilyffethair a cholli hunaniaeth? Ai archwladwriaeth yw'r UE, ai ynteu deulu heddychlon o genhedloedd yn byw yn ein cartref Ewropeaidd cyffredin?

Hyd yma, mae'r ddadl wedi bod yn llawn mythau, datganiadau camarweiniol a chyhuddiadau o'r naill ochr a'r llall. Mae'n bwysig bod Cristnogion yn ystyried yn weddigar pa werthoedd, pryderon ac uchelgeision sy'n arwain ein dewis, nid yn unig mewn perthynas â'n hunain ond hefyd â bywydau ein cymdogion a'r cenedlaethau sydd i ddod. Dyna pam fod yr Eglwys yng Nghymru, mewn partneriaeth a Chytûn, yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus lle y gellir archwilio'r pynciau dan sylw, ystyried beth y gallwn, neu na allwn, ei wneud ynglŷn â hwy, a gwerthuso'r dewisiadau. Ar **nos Iau Mehefin 7 am 7.30yh** yn Eglwys Priordy'r Santes Fair, Y Fenni, fe fydd y Farwnes Shirley Williams yn siarad ac yn ateb cwestiynau. Cynhelir cyfarfodydd eraill yn Abertawe a Llandudno.

Ar wefan Cytûn, [www.cytun.org.uk/referendwm.html](http://www.cytun.org.uk/referendwm.html) gellir cyrchu lluo o ddolenni i wefannau am y refferendwm gan fudiadau Cristnogol, mudiadau eraill yng Nghymru a gwefannau yn cynnwys gwybodaeth amhleidiol.



## CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwys Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: [gethin@cytun.org.uk](mailto:gethin@cytun.org.uk)  [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)



*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English*

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwys Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 20fed Mai 2016.

Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar ôl Refferendwm Ewrop, yn gynnar yng Ngorffennaf 2016.